
Cyflwyniad i Fframwaith Gweithredu Ofcom ar gyfer y BBC

Cynnwys

Adran

1. Gair am y ddogfen hon	1
2. Ofcom a'r BBC	2
3. Y Fframwaith Gweithredu a dogfennau cysylltiedig	6

1. Gair am y ddogfen hon

- 1.1 Yn unol â Siarter y BBC, mae'n rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi Fframwaith Gweithredu sy'n gorfod cynnwys y darpariaethau sy'n briodol ym marn Ofcom i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC yn cael eu rheoleiddio'r effeithiol fel y nodir yn y Siarter a'r Cytundeb.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rolau Ofcom a'r BBC o dan y cynllun rheoleiddio newydd, yn nodi beth yw strwythur Fframwaith Gweithredu Ofcom ar gyfer y BBC, ac yn nodi dogfennau cysylltiedig perthnasol.

2. Ofcom a'r BBC

Cyflwyniad

- 2.1 Yn ystod 2016, cynhaliodd y Llywodraeth broses adolygu ar gyfer sefydlu Siarter newydd ar gyfer y BBC am y cyfnod 2017-2027. Cafodd adolygiad annibynnol¹ i edrych ar sut mae'r BBC yn cael ei lywodraethu a'i reoleiddio ei gomisiynu gan y Llywodraeth ac, ym mis Mawrth 2016, daeth i'r casgliad y dylai'r gwaith o reoleiddio'r BBC gael ei roi i Ofcom. Cadarnhaodd y Llywodraeth ei phenderfyniad y dylai Ofcom reoleiddio'r BBC mewn Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016².
- 2.2 Cafodd Siarter Frenhinol newydd ar gyfer y BBC³ am y cyfnod 2017-2027 ei chyhoeddi gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016, ynghyd â Chytundeb ategol rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Siarter a'r Cytundeb at ei gilydd yn nodi sut bydd y BBC yn gweithredu yn ystod cyfnod y Siarter newydd.
- 2.3 Ar ôl cyhoeddi'r Siarter a'r Cytundeb, rydym wedi ymgynghori ar ein cyfrifoldebau newydd o ran cynnal Safonau Cynnwys yn rhaglenni'r BBC, gan sicrhau nad yw'r BBC yn niweidio cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'n gweithredu ynddynt, a sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus.
- 2.4 Mae gweddill yr adran hon yn disgrifio ein rôl ni a rôl y BBC ymhob un o'r meysydd hyn. Mae Adran 3 yn disgrifio elfennau unigol y Fframwaith Gweithredu, a dogfennau cysylltiedig fel Cod Darlledu Ofcom a'r Drwydded Weithredu.

Safonau Cynnwys

- 2.5 Dylai cynulleidfaoedd allu disgwyl y bydd y rhaglenni y maent yn eu gwyllo ac yn gwrandao arnynt o ansawdd uchel, yn wreiddiol, yn diddanu ac yn procio'r meddwl. Dylent allu ymddiried yn yr hyn maent yn ei weld a'i glywed. Dylent allu teimlo'n hyderus fod y BBC wedi llunio'i gynnwys yn ôl y safonau golygyddol uchaf, gan gymryd camau priodol i osgoi darlledu cynnwys a allai achosi tramgwydd heb gyfiawnhad a rhoi digon o amddiffyniad i wylwyr a gwrandawyr rhag cynnwys niweidiol.
- 2.6 Rhaid i Ofcom sicrhau safonau cynnwys yng nghyswllt y BBC fel bod gwylwyr a gwrandawyr y BBC wedi'u hamddiffyn yn ddigonol. O dan y Siarter a'r Cytundeb, Ofcom sy'n gyfrifol am reoleiddio pob agwedd ar safonau cynnwys y BBC, gan gynnwys, am y tro cyntaf, cywirdeb a didueddrwydd rhaglenni newyddion, a didueddrwydd unrhyw raglen sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol neu bolisi cyhoeddus cyfredol.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/a-review-of-the-governance-and-regulation-of-the-bbc>

² https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/524863/DCMS_A_BBC_for_the_future_linked_rev1.pdf

³ <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>

- 2.7 Mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif o dan reolau ei God Darlledu (“y Cod”). Mae’r rheolau hyn yn adlewyrchu amcanion y safonau a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 y mae Ofcom hefyd yn eu defnyddio gyda phob un o’i ddarlledwyr trwyddedig. Ers 3 Ebrill 2017, mae’r Cod yn gwbl berthnasol i wasanaethau darlledu’r BBC sy’n cael eu hariannu gan ffi’r drwydded⁴ ac, fel y bo’n berthnasol, i wasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC (fel BBC iPlayer).
- 2.8 Mae cwynion am raglenni’r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion ‘BBC yn Gyntaf’. Y BBC sy’n delio â chwynion yn y lle cyntaf⁵, a gall achwynwyr gyfeirio’u cwynion at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. I sicrhau effeithiolrwydd y fframwaith ‘BBC yn Gyntaf’ ac er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu’n briodol, mae Ofcom wedi sefydlu peirianweithiau goruchwylio (fel adroddiadau rheolaidd gan y BBC ar ddelio â chwynion). Yn bwysig iawn, mae gan Ofcom hefyd y pŵer i ‘gamu i mewn’ ac ymyrryd mewn achos safonau cynnwys gan y BBC ar gam cynharach, neu i lansio ymchwiliad yn niffyg cwyn, os ystyrir bod hynny’n angenrheidiol.
- 2.9 Mae Ofcom wedi gosod a chyhoeddi trefniadau cwyno tryloyw a hygyrch ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys y BBC. Mae’r rhain yn rhoi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill am sut mae Ofcom yn ystyried cwynion mae’n eu cael ar sail ‘BBC yn Gyntaf’ a sut mae Ofcom yn delio ag ymchwiliadau i safonau cynnwys (gan gynnwys achosion tegwch a phreifatrwydd) ar gyfer gwasanaethau darlledu’r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC. Mae ein gweithdrefnau hefyd yn nodi sut mae Ofcom yn ystyried gosod sancsiynau ar y BBC.
- 2.10 Mae gan Ofcom hefyd o dan y Siarter a’r Cytundeb y gallu i gynnal a chyhoeddi adolygiadau yn rhoi sylw i unrhyw fater pryder penodol sy’n ymwneud â gweithgareddau’r BBC a reoleiddir, megis safonau cynnwys. Bydd Ofcom yn cynnal adolygiadau thematig o’r safonau cynnwys pan fydd yn ystyried bod hynny’n briodol.
- 2.11 Bydd y rhai sy’n achwyn am y BBC hefyd yn gallu cael barn annibynnol gan Ofcom ynghylch a yw’r BBC wedi glynu wrth y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein yn ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU⁶. Mae Ofcom wedi dod i drefniant gyda’r BBC ar gyfer gwneud darpariaeth ar gyfer hyn ac wedi cyhoeddi gweithdrefnau i hysbysu defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill â diddordeb ynghylch sut y byddwn yn ystyried ac yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC.
- 2.12 Mae gan Ofcom bwerau i sicrhau y rhoddir darpariaeth ar waith fel bod pobl â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg yn gallu deall a phrofi rhaglenni teledu. Mae’n rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU gydymffurfio â chod a lunnir gan Ofcom yn rhoi arweiniad ar ei ofynion ar gyfer gwasanaeth mynediad.

⁴ Nid oes gan Ofcom gyfrifoldeb dros y BBC World Service.

⁵ Ac eithrio cwynion Tegwch a Phreifatrwydd y mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i’w derbyn yn uniongyrchol gan achwynwyr.

⁶ Mae’r Bil Economi Ddigidol yn cynnig y diwygiad angenrheidiol: ⁶

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/101892/bbc-online-arrangement.pdf

Perfformiad

- 2.13 Mae cyflawni dyletswyddau mewn perthynas â pherfformiad y BBC yn faes cyfrifoldeb newydd a blaenoriaeth uchel i Ofcom. Rydym wedi cael y gwaith o ddal y BBC i gyfrif mewn perthynas â'i allbwn a'i gynnyrch. Gan adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rôl Ofcom a rôl Bwrdd y BBC, mae'r Siarter yn sefydlu mai gwaith y BBC fydd gosod a chyflawni ei gylch gwaith strategol a chreadigol.
- 2.14 Bydd cynulleidfaedd wrth galon sut byddwn yn dal y BBC i gyfrif. Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau mae gennym amrywiaeth o declynnau gallwn ni eu defnyddio, gan gynnwys:
- gallu gosod amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU drwy drwydded weithredu'r BBC . Bydd y BBC yn wynebu sancsiynau, gan gynnwys - am y tro cyntaf o bosibl - cosbau ariannol, os bydd yn methu cyflawni'r amodau rheoleiddio hyn;
 - yn ogystal ag asesu cydymffurfiaid â'r amodau rheoleiddio hyn, byddwn yn edrych ar berfformiad y BBC yn ehangach drwy fframwaith mesur perfformiad newydd;
 - gofyniad y byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y mesurau perfformiad hyn a chydymffurfiaid y BBC â'r amodau rheoleiddio newydd; a
 - gofyniad ein bod yn cynnal o leiaf dau adolygiad manwl o berfformiad y BBC. Gallwn hefyd gynnal adolygiad ad hoc pan fyddwn yn teimlo bod hynny'n briodol.
- 2.15 Mae swyddogaethau Ofcom yn cynnwys pennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU sy'n cynnwys amodau rheoleiddiol y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud y canlynol:
- cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
 - sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
 - sicrhau bod cynulleidfaedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.
- 2.16 Nid yw'r drwydded yn nodi cyllidebau na strategaethau ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni'r BBC. Nid yw'r meysydd hyn yn rhan o swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC. O dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac yn pennu'r cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol er mwyn gwneud hynny . Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno, a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig .

Cystadleuaeth

- 2.17 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn cydnabod bod angen i'r BBC allu llwyddo, gan gynnwys mewn ffyrdd newydd ac arloesol, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, a'i fod hefyd yn ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth yn y

sector drwyddo draw. Mae gan Fwrdd y BBC ac Ofcom rwymedigaethau i ystyried effeithiau gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

- 2.18 Rydym yn credu bod cystadleuaeth o fudd i gynulleidfaeoddedd gan ei bod yn gallu cynyddu dewis ac ysgogi buddsoddiad ac arloesedd. Mae cystadleuaeth hefyd yn gallu creu cymhellion i fusnesau ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy cost-effeithiol. Fel sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, yn anochel mae'r BBC yn effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach. Gall gael effaith gadarnhaol drwy ysgogi galw neu hybu arloesedd ar draws y sector, ymysg pethau eraill. Ond wrth gyflawni ei amcanion, gall y BBC hefyd niweidio gallu eraill i gystadlu.
- 2.19 Gall pryderon o ran cystadleuaeth godi os ystyrir bod gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn gwrthio cystadleuaeth i ffwrdd. Yn yr un modd, mae perygl heb ddiogelwch priodol y gellid defnyddio arian cyhoeddus y BBC fel cymhorthdal neu fantais annheg ar gyfer ei is-gwmnïau masnachol drwy gynnig gwasanaethau ar delerau ffafriol. Gallai'r ffordd y mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys a'i wasanaethau effeithio ar gystadleuaeth hefyd. Er enghraifft, efallai na fydd llwyfannau a ddarparwyd cynnwys yn gallu datblygu cynigion atyniadol i ddefnyddwyr os nad ydynt yn gallu rhoi cynnwys y BBC yn eu gwasanaethau, neu os ydynt yn cael mynediad i'r cynnwys hwnnw ar delerau sy'n annheg neu'n gwahaniaethu.
- 2.20 Ein rôl ni yw sicrhau bod pryderon o ran cystadleuaeth yn cael eu hystyried yn iawn. Byddwn yn asesu effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth, ac rydym wedi llunio rheolau i nodi sut y dylai'r BBC ymddwyn, gan ystyried ei effaith ar eraill yn y farchnad. Pan fyddwn yn adolygu effaith gwasanaethau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, byddwn yn ymgynghori â'r BBC ac eraill, ac yn ystyried yr angen i'r BBC gyflawni ei Weledigaeth a hyrwyddo'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â manteision posibl rhagor o fuddsoddi ac arloesi gan y BBC a sefydliadau eraill yn y dyfodol.
- 2.21 Fel rhan o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC, rydym wedi llunio fframwaith rheoleiddio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt:
- Mae Asesiadau Cystadleuaeth y BBC yn archwilio a yw gwerth cyhoeddus unrhyw newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
 - Mae Adolygiadau Cystadleuaeth y BBC yn ein galluogi i ystyried a yw un o weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus presennol y BBC yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw gwerth cyhoeddus y gwasanaeth yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
 - Mae'r Gofynion a'r Canllawiau Dosbarthu yn esbonio sut y byddwn yn ystyried pryderon cystadleuaeth penodol ynghylch y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus, gan ystyried yr angen i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.
 - Mae'r Gofynion a'r Canllawiau Gweithgareddau Masnachol yn mynd i'r afael â'r pryderon cystadleuaeth a allai godi yn sgil y berthynas rhwng y BBC a'i is-gwmnïau

masnachol, ac yn y ffordd mae'r BBC yn gweithredu'n fasnachol (h.y. gweithgareddau sy'n atodol i waith gwasanaethau cyhoeddus y BBC), fel llogi gofod stiwdio sbar neu werthu tocynnau i ddigwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus y BBC). Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn cynnal asesiadau o gynigion y BBC ar gyfer newidiadau perthnasol i'w weithgareddau masnachol.

- Bydd prosesau cwyno yn adlewyrchu'r strwythur "BBC yn Gyntaf" sy'n cael ei esbonio uchod ar gyfer safonau cynnwys, a byddwn yn esbonio elfennau lle y gallai gwahaniaethau godi.

3. Y Fframwaith Gweithredu a dogfennau cysylltiedig

Strwythur a datblygiad y Fframwaith Gweithredu

- 3.1 Mae Ofcom wedi cael y gwaith o greu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer y BBC, sef “y Fframwaith Gweithredu”. Bydd yn cynnwys y darpariaethau sy’n briodol ym marn Ofcom i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol.
- 3.2 Mae'r Fframwaith Gweithredu yn ymdrin â holl gyfrifoldebau newydd Ofcom am y BBC ym meysydd Safonau Cynnwys, perfformiad a Chystadleuaeth, ac mae wedi'i lunio o gyfres o ddogfennau ar wahân.
- 3.3 Mae Ofcom wedi cynghori, neu wrthi'n cynghori, yn unigol ar holl rannau'r Fframwaith Gweithredu, a dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys cyfres o weithdrefnau a mesurau a fydd yn delio â holl gyfrifoldebau newydd Ofcom am y BBC ym meysydd Safonau Cynnwys, Perfformiad a Chystadleuaeth.
- 3.4 Bydd y Fframwaith Gweithredu yn esblygu dros amser wrth i elfennau unigol gael eu cwblhau. Mae'r set gyntaf gyhoeddedig o'r rhannau terfynol, gan gynnwys dogfennau cysylltiedig, yn ymdrin â'r canlynol.

Safonau Cynnwys

- 3.5 Ers 3 Ebrill 2017, mae Ofcom yn rheoleiddio safonau cynnwys gwasanaethau darlledu a rhaglenni ar-alwad y BBC yn erbyn y rheolau yng **Nghod Darlledu Ofcom**. Mae'r Cod diwygiedig⁷ ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code>
- 3.6 Mae Ofcom yn gosod gofynion ar y BBC o ran darllediadau gwleidyddol a darllediadau refferenda yn ei **reolau ar ddarllediadau gwleidyddol gan bleidiau a darllediadau refferenda**. Mae'r rheolau diweddaraf ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0035/99188/pprb-rules-march-2017.pdf
- 3.7 O 3 Ebrill, Ofcom sy'n delio â **chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC** yn unol â'n gweithdrefnau cyhoeddedig. Mae'r gweithdrefnau newydd ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf

⁷ Y Cod Darlledu Diwygiedig, wedi'i gyhoeddi ar 29 Mawrth 2017

- 3.8 Ofcom sy'n ystyried ac yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC dan drefniant rhwng Ofcom a'r BBC.⁸ Rydym wedi cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc/bbc-online-material>

Cystadleuaeth

- 3.9 Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau, gweithdrefnau a gofynion terfynol ar y canlynol:
- Sut yr ydym yn asesu pryderon sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth sy'n ymwneud â newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae'r canllawiau ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf
 - Sut yr ydym yn asesu pryderon sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n parhau. Mae'r canllawiau newydd ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0027/95814/Rheoleiddio-effaith-y-BBC-ar-gystadleuaeth.pdf
 - Sut yr ydym yn asesu'r berthynas rhwng y BBC a'i is-gwmnïau masnachol. Mae'r canllawiau newydd ar gael yma:
 - <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/bbc-trading-activities>
 - Sut yr ydym yn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn perthynas â'r ffordd y mae'r BBC yn dosbarthu'i wasanaethau cyhoeddus. Mae'r canllawiau newydd ar gael ar y wefan: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/99413/bbc-distribution.pdf
 - Sut fyddwn yn gorfodi anghenion cystadleuaeth y BBC. Mae'r canllawiau newydd ar gael ar y wefan: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/102520/Procedures-for-enforcement-of-BBC-competition-requirements.pdf

Perfformiad

- 3.10 Mae Ofcom wedi cyhoeddi Trwydded Weithredu cyntaf y BBC a'r fframwaith mesur perfformiad ynghyd â'r prosesau ar gyfer gosod a diwygio'r rhain. Dyma'r manylion:
- Gellid ddod o hyd i Drwydded Weithredu'r BBC ar y wefan: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf
 - Y canllawiau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/107095/procedures-bbc-operating-licence-cymraeg.pdf

⁸ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/101998/gweithdrefnau-gyfer-cwynion-cysylltiedig-deunydd-bbc.pdf

- Y canllawiau ar gyfer gosod a diwygio'r mesurau perfformiad:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/107096/bbc-performance-measures-cymraeg.pdf

Asesiad Ofcom o berfformiad y BBC yn yr Adroddiad Blynyddol

- 3.11 Un ffordd arall y bydd Ofcom yn ei defnyddio i asesu perfformiad y BBC yw drwy baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Bydd hwn yn dangos sut y byddwn wedi cyflawni ein prif swyddogaethau yng nghyswllt y BBC a rhaid iddo gynnwys asesiad o gydymffurfiaid y BBC â'r hyn a elwir y "gofynion penodedig" yn y Siarter a'r Cytundeb⁹. Y gofynion i bob pwrpas yw'r rhai y mae Ofcom yn gyfrifol am eu gorfodi (ac felly'n cynnwys yr amodau mewn trwydded weithredu).

Asesiad Ofcom o berfformiad y BBC mewn Adolygiadau Cyfnodol

- 3.12 3.12 Yn ogystal â'r Adroddiadau Blynyddol a ddisgrifir uchod, rhaid i Ofcom hefyd gynnal o leiaf dau Adolygiad Cyfnodol manwl yn ystod cyfnod y Siarter. Bydd yr adolygiadau mwy sylweddol hyn yn gwerthuso i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus. Byddant hefyd yn rhoi sylw i unrhyw bryderon penodol a bennir gan Ofcom, yn ogystal ag unrhyw feysydd eraill sy'n ganolog i gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Bydd y mesurau perfformiad a'r adroddiadau ymchwil blynyddol yn sail i'r adolygiadau cyfnodol helaethach hyn.

Asesiad Ofcom o berfformiad y BBC mewn Adolygiadau Ad hoc

- 3.13 3.13 Lle y bo'n briodol, gall Ofcom gynnal rhagor o adolygiadau yn achlysurol i roi sylw i unrhyw faterion pryder penodol a ddaw i'n sylw. Gallai'r rhain gael eu sbarduno gan bryderon am feysydd darparu penodol neu gan yr angen i helpu i lunio sylfaen dystiolaeth cyn Adolygiad Cyfnodol.
- 3.14 3.14 Bydd adolygiad cyntaf ad-hoc y BBC yn asesu os ydy ei raglenni a'i wasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth y DU. Bydd yr adolygiad dwys hwn yn gofyn beth mae pobl yn disgwyl o'r BBC i ddeall os ydyw'r BBC yn gwasanaethu ac yn adlewyrchu cynulleidfaoedd amrywiol yn ddigonol.

⁹ Cymal 59 o'r Cytundeb.

Safonau Cynnwys

Codau Safonau a Thegwch

- 3.15 O dan y Siarter, rhaid i Ofcom reoleiddio safonau cynnwys Gwasanaeth Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Codau Safonau a Thegwch Ofcom.
- 3.16 Nid yw Ofcom yn rheoleiddio safonau'r BBC World Service. Nid yw gwasanaethau darlledu masnachol y BBC, a ddarperir gan gwmnïau'r BBC, yn Wasanaethau Cyhoeddus y DU ond maent yn cael eu rheoleiddio gan safonau cynnwys Ofcom dan delerau eu trwyddedau gan Ofcom.

Sut y bydd Ofcom yn ystyried cwynion am safonau cynnwys y BBC

- 3.17 O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC ac Ofcom lunio a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am gydymffuriad y BBC â'i rwymedigaethau, gan gynnwys safonau cynnwys, ynghyd â'u datrys. Ac eithrio cwynion sy'n gysylltiedig â Thegwch a/neu Breifatrwydd¹⁰, rhaid i weithdrefnau'r BBC ddarparu y bydd cynwys fel arfer yn cael ei datrys yn y lle cyntaf gan y BBC cyn y gall achwynydd gyfeirio cynwys at Ofcom. Gelwir hyn yn ddull 'BBC yn Gyntaf'.
- 3.18 3.19 Mae Ofcom wedi gosod a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion perthnasol am y BBC¹¹ sy'n cael eu cyfeirio at Ofcom yn yr amgylchiadau canlynol:
- os ydy'r sawl sy'n cwyno yn anfodlon â'r ffordd mae'r BBC wedi datrys cynwys;
 - os ydy'r sawl sy'n cwyno yn credu, ar ôl i'r BBC ddatrys cynwys, y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn, pan fydd hynny ar gael;
 - os ydy'r BBC wedi methu datrys cynwys yn y cyfnod a nodir yn ei weithdrefnau ei hun.
- 3.19 3.20 Mae'r gweithdrefnau cyhoeddus hyn yn disgrifio'r broses y bydd Ofcom yn eu dilyn fel arfer mewn perthynas â Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU wrth:
- ystyried ac ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â safonau cynnwys o dan y Cod;
 - ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd o dan y Cod; ac
 - ystyried rhoi sancsiynau am dorri'r Cod.
- 3.20 Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chwynion berthnasol nad yw wedi cael eu datrys gan y BBC a'i datrys ei hun. Gall Ofcom hefyd gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn niffyg unrhyw gwyn. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymchwiliadau o'r fath i'w cael yn y dogfennau uchod.

¹⁰ Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ddyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd.

¹¹ Fydd Ofcom ond yn ystyried cwynion am yr agweddau hynny o weithgareddau'r BBC y mae'n eu rheoleiddio.

- 3.21 Mae gweithdrefnau cyhoeddus Ofcom yn sicrhau bod ei system gwyno yn dryloyw ac yn hygyrch. Bydd cwynion yn cael eu datrys yn effeithiol ac yn brydlon, ac ymdrinnir â'r cwynion mewn ffordd gymesur.

Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sanctiynau am dorri safonau cynnwys ar Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU

- 3.22 Fel y nodir uchod, mae'n rhaid i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU gydymffurfio â'r Cod Darlledu; yn y ddau achos, mae cydymffurfio yn cael ei orfodi gan Ofcom.
- 3.23 Mae Ofcom wedi pennu gweithdrefnau y bydd fel arfer yn eu dilyn wrth ystyried gosod sanctiwn yn erbyn y BBC mewn perthynas â thorri safonau cynnwys (gan gynnwys mewn perthynas â thorri rheolau Thegwch a Phreifatrwydd) ar y cyfryw wasanaethau.
- 3.24 Mae'r gweithdrefnau'n nodi'r amgylchiadau lle bydd sanctiwn yn cael ei ystyried mewn achos a'r mathau o sanctiynau y gallwn eu gosod.

Deunydd Ar-lein

- 3.25 Bydd Ofcom yn ystyried ac yn rhoi barn, gan gynnwys unrhyw argymhellion y bydd Ofcom yn eu hystyried yn briodol, ynghylch a yw'r BBC wedi glynw wrth ganllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU.
- 3.26 Mae'n ofynnol bod Ofcom a'r BBC yn creu trefniant i roi darpariaeth ar gyfer materion yn ymwneud â chanllawiau golygyddol perthnasol ac ystyr deunydd ar-lein. Mae Ofcom wedi gosod ac wedi cyhoeddi canllawiau am sut fydd yn ymdrin â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC¹².
- 3.27 Ni fydd y trefniadau y bydd Ofcom a'r BBC yn cytuno iddynt yn rhan o'r Fframwaith Gweithredu.

Cyhoeddi canfyddiadau cwynion y BBC

- 3.28 Mae penderfyniadau Ofcom ar yr holl gwynion am safonau cynnwys y BBC y mae' eu hystyried yn cael eu cyhoeddi yn ei Fwletin Darlledu ac Ar-alwad, bob pythefnos ar ei wefan: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/>

Gofynion eraill sy'n gysylltiedig â darlledu

Gosod a gorfodi gofynion ynghylch Darllediadau Gwleidyddol a Refferenda

- 3.29 Rhaid i Ofcom osod y gofynion ar y BBC sy'n briodol ym marn Ofcom ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i ddarllediadau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol a darllediadau

¹² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/101892/bbc-online-arrangement.pdf

ymgyrchoedd refferenda) gael eu cynnwys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus hynny sy'n briodol ym marn Ofcom, a'i gwneud yn ofynnol i'r BBC gadw at y rheolau yng nghyswllt y cyfryw ddarllediadau.

- 3.30 Mae Ofcom yn gosod y cyfryw ofynion ar rai darlledwyr trwyddedig o dan adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Yn Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Gwleidyddol a Refferenda, ceir darpariaeth ynghylch dyrannu darllediadau gwleidyddol, darllediadau etholiadol ac ymgyrchoedd refferenda, eu hyd a pha mor aml y cânt eu darlledu, ac yn nodi'r darlledwyr y mae'n rhaid eu cael i'w darlledu. Mae Ofcom wedi ymestyn y rheolau i ddelio â gwasanaethau'r BBC.

Cystadleuaeth

Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

- 3.31 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn gosod nifer o ddyletswyddau ar Ofcom a'r BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 3.32 Hefyd, mae'r Siarter yn pennu rhai testunau penodol y mae'n rhaid i Ofcom roi sylw iddynt o fewn y Fframwaith Gweithredu i sicrhau y diogelir cystadleuaeth deg ac effeithiol. Y rhain yw:
- Newidiadau perthnasol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a gweithgareddau heb fod yn wasanaethau;
 - Effaith Gwasanaethau Cyhoeddus parhaus y DU, gweithgareddau heb fod yn wasanaethau a gweithgareddau masnachu ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
 - Cytundebau gyda thrydydd partïon mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau heb fod yn wasanaethau a gweithgareddau masnachu, ac ymddygiad sy'n effeithio ar y trydydd partïon hyn;
- 3.33 Rhaid i Ofcom hefyd osod gofynion i sicrhau nad yw gweithgareddau masnachol y DU yn ystumio'r farchnad ac nad ydynt yn cael mantais gystadluol annheg oherwydd eu perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus y BBC.
- 3.34 Yn olaf, mae'r Cytundeb hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom i gynnwys yn y Fframwaith Gweithredu unrhyw ofynion eraill y teimlwn y dylid eu gosod ar y BBC er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Gall hyn gynnwys gofynion mewn perthynas â dosbarthu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Dros oes y Siarter, efallai y bydd Ofcom yn penderfynu y bydd yn briodol gosod gofynion mewn meysydd ychwanegol.
- 3.35 Mae disgrifiad o rôl Ofcom ymhob un o'r meysydd hyn ar gael isod.

Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y DU a gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig gyda'r gwasanaethau

Asesu cynigion y BBC ar gyfer gwneud newidiadau perthnasol i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus

- 3.36 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn rhoi i Fwrdd y BBC y cyfrifoldeb am ystyried effaith gystadleuol rhai newidiadau sydd yn yr arfaeth, naill ai i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU neu i weithgareddau heb fod yn wasanaethau¹³.
- 3.37 Mae'r BBC wedi cyhoeddi ei bolisi ei hun ynghylch sut y bydd Bwrdd y BBC yn diwallu ei rwymedigaethau gwahanol ond cysylltiedig i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effaith gystadleuol wrth wneud newidiadau i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Cytundeb yn darparu'r canlynol:
- 3.38 Mae'r BBC yn cynnal asesiad ynghylch a yw newid arfaethedig yn berthnasol neu beidio o ran y *gallai* gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Os yw'n berthnasol, bydd y BBC yn dilyn proses o'r enw prawf lles y cyhoedd. Fel rhan o'r prawf hwnnw, rhaid i'r BBC ei fodloni ei hun y bydd cynnig yn darparu gwerth digonol i'r cyhoedd drwy ei gyfraniad at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus er mwyn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth nad yw'n gallu ei dileu drwy gymryd camau rhesymol.
- 3.39 Os yw'r BBC yn fodlon fod ei brawf lles y cyhoedd wedi'i basio a'i fod am fwrw ymlaen â'r cynnig, rhaid iddo gyhoeddi ei benderfyniad. Bydd Ofcom wedyn yn cynnal asesiad perthnasedd (*materiality*) cychwynnol ac, os bydd raid, bydd yn cynnal un ai asesiad byr o gystadleuaeth neu un fwy manwl. Ni chaiff y BBC roi'r newid mae'n ei gynnig ar waith nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau.
- 3.40 Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau am sut y mae'n bwriadu asesu cynigion perthnasol y BBC.

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf

Adolygu effaith barhaus gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus

- 3.41 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn caniatáu i Ofcom gynnal adolygiad cystadleuaeth o effaith barhaus gweithgaredd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU neu weithgaredd heb fod yn wasanaeth, lle mae sail resymol dros gredu bod gweithgaredd gwasanaeth cyhoeddus gan y BBC yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 3.42 Arf rheoleiddio ydy adolygiadau cystadleuaeth y BBC i ategu asesiadau cystadleuaeth y BBC. Maent yn caniatáu i Ofcom ymateb, er enghraifft, i effeithiau cystadleuol negyddol sy'n deillio o gyfres o newidiadau cynyddrannol bychan i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus y BBC, neu newidiadau eraill yn y farchnad sy'n dylanwadu ar effaith barhaus y

¹³ h.y. gwasanaethau sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus y BBC neu'n eu galluogi

cyfryw weithgareddau, ond heb y sbardun o un newid perthnasol a fyddai'n destun y broses asesu cystadleuaeth. Wrth gynnal adolygiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC, rhaid i Ofcom ystyried lefel y gwerth cyhoeddus a gynhrychir gan y gwasanaeth dan sylw o'i gymharu â maint unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth y mae Ofcom wedi'i phennu.

- 3.43 Pan fydd Ofcom yn penderfynu cynnal adolygiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC, byddwn yn nodi faint o amser y byddwn yn ei gymryd i gwblhau ein hadolygiad. Canlyniad adolygiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC fydd bod y BBC yn cael parhau â'r gweithgaredd y mae Ofcom wedi'i adolygu, neu y bydd yn gallu gwneud hynny ond yn amodol ar amodau neu addasiadau priodol.
- 3.44 Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau am sut y mae'n bwriadu cynnal adolygiadau cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC:
https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0027/99414/bbc-public-service-activities.pdf

Gweithgareddau masnachol a gynhelir gan y BBC

- 3.45 O dan y Siarter a'r Cytundeb, dim ond drwy is-gwmnïau masnachol y gall y BBC gynnal gweithgareddau masnachol. Mae gweithgareddau masnachol presennol y BBC yn cynnwys BBC Worldwide, BBC Studioworks, BBC Global News a BBC Studios. Rhaid i weithgareddau'r is-gwmnïau hyn fod yn gydnaws â Chenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Ond nid yw'r cwmnïau hyn yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded ac felly rhaid iddynt geisio cynhyrchu elw.
- 3.46 Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am osod y trefniadau llywodraethu a'r strategaeth ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC. Rhaid iddo sicrhau, ymysg pethau eraill, fod yr is-gwmnïau'n "effeithlon yn fasnachol", ac nad ydynt yn cael mantais gystadleuol annheg oherwydd eu perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus y BBC. Rhaid i'r Bwrdd hefyd asesu a yw unrhyw newidiadau perthnasol arfaethedig i weithgaredd masnachol yn gydnaws â'r meini prawf hyn.
- 3.47 Yn unol â'r Cytundeb, gall y BBC gynnal "gweithgareddau masnachol" sy'n cynnwys y defnydd o asedau gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU. Mae'r gweithgareddau hyn yn fasnachol o ran natur ac nid ydynt wedi'u dylunio i greu elw ond efallai y byddant yn gwneud hynny. Mae enghreifftiau o weithgareddau masnachol yn cynnwys: gwerthu capasiti sydd yn weddill ar yr amblecs digidol mae'r BBC yn ei ddefnyddio i ddarlledu ei wasanaethau i gartrefi Freeview; gwaredu neu is-drwyddedu hawliau ag enillwyd fel rhan o becyn mwyach nad oes ei angen gan y Gwasanaethau Cyhoeddus; masnachu rhwng Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac is-gwmnïau masnachol y BBC a sicrhau buddsoddiad rhag blaen yng nghynnwys y BBC gan drydydd partion.
- 3.48 Mae rôl Ofcom yn canolbwyntio ar y risg y bydd y farchnad yn cael ei hystumio naill ai oherwydd y berthynas rhwng y BBC a'i is-gwmnïau masnachol, neu'r ffordd mae'n cynnal ei weithgareddau masnachol. Rhaid inni lunio gofynion i fynd i'r afael â'r pryder hwn, a all gynnwys:

- gofynion priodol o ran gwahanu, gan gynnwys bod is-gwmnïau masnachol yn gweithredu o dan egwyddorion arferol y farchnad a bod ganddynt berthynas hyd braich â gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU; a
 - gofynion priodol o ran tryloywder, gan gynnwys cyhoeddi neu roi i Ofcom y wybodaeth ofynnol i ddangos sut mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn dilyn y rheolau gwahanu.
- 3.49 Rhaid inni hefyd ystyried cynigion gan y BBC i wneud newidiadau perthnasol i'w wasanaethau masnachol. Os bydd Ofcom yn ystyried bod newid yn berthnasol (*material*), byddwn yn cynnal asesiad a fydd yn dod i'r casgliad y gall y BBC wneud y newid, na chaiff wneud y newid, neu y gall wneud y newid ond bod amodau ynghlwm.
- 3.50 Mae Ofcom wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau ar sut y bwriadwn gyflawni ein swyddogaethau parthed is-gwmnïau masnachol a'i weithgareddau masnachol:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/99412/bbc-commercial.pdf

Gofynion ychwanegol i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

Dosbarthu

- 3.51 Mae'n rhaid i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod ei wasanaethau cyhoeddus ar gael yn eang a'u dosbarthu mewn nifer o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol. Fel rhan o'i rwymedigaethau, rhaid i'r BBC ddatblygu a chyhoeddi ei strategaeth a'i bolisi ar gyfer gwneud hynny. Dim ond terfynau ac amodau rhesymol y gall ei osod ar ddsbarthu ei gynnyrch a'i wasanaethau i drydydd partion ac sy'n sicrhau ei fod yn gweithredu'n deg, yn rhesymol ac yn anwahaniaethol.
- 3.52 Rôl Ofcom o ran dosbarthu yw gosod gofynion i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol. Byddwn yn camu i mewn lle y mae'r BBC wedi methu dilyn ein gofynion neu lle mae'n bosibl nad ydynt wedi gwneud hynny. Dim ond pan fydd yn ofynnol y byddwn yn gweithredu ac, wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried amcan y BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.
- 3.53 Mae Ofcom wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau ar sut y bwriadwn gyflawni ein swyddogaethau parthed dosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC:
- https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/99413/bbc-distribtion.pdf

Darpariaethau Cyffredinol

Sut y bydd Ofcom yn mynd ati i orfodi

- 3.54 Bydd Ofcom yn gorfodi cydymffurfriad drwy ddefnyddio gwahanol ddarpariaethau sydd yn:
- a) Siarter a Chytundeb y BBC;
 - b) y Fframwaith Gweithredu; ac
 - c) y Drwydded Weithredu.

- 3.55 O dan y Siarter, os ydy Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio â gofyniad penodol, caiff Ofcom:
- a) cyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau a fydd ym marn Ofcom yn:
 - i) gwneud iawn am y methiant i gydymffurfio;
 - ii) sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i ofynion yn iawn yn y dyfodol;
 - b) cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid iddo dalu cosb ariannol benodedig o fewn cyfnod penodol.
- 3.56 Fel y nodir uchod, rydym wedi llunio gweithdrefnau penodol ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC ac ar gyfer gorfodi gofynion cystadleuaeth y BBC.¹⁴
- 3.57 Ond, mae'r Cytundeb hefyd yn gosod gofynion ar y BBC, yn ychwanegol at y gofynion cystadleuaeth a safonau cynnwys, sy'n cael eu gorfodi gan Ofcom. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfriad y BBC â gofynion yn y Fframwaith Gweithredu a materion eraill a bennir yn y Cytundeb, megis y gofyniad i gadw a darparu recordiadau i Ofcom.
- 3.58 Rydym wedi cyhoeddi'r gweithdrefnau y byddwn fel arfer yn eu dilyn wrth ymchwilio i achosion posibl o'r BBC yn torri gofynion a bennir yn y Cytundeb, heblaw am ofynion cystadleuaeth a safonau cynnwys.
- https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0024/99420/bbc-agreement.pdf

¹⁴ Gallwch ddod o hyd i'n gweithdrefnau sy'n nodi sut byddwn yn gorfodi anghenion cystadleuaeth y BBC ar y wefan: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/102520/Procedures-for-enforcement-of-BBC-competition-requirements.pdf